**ADRODDIAD I'R CYNGOR**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **2 MAWRTH 2017** |
| **AELOD CABINET** | **CYNGHORYDD MAIR ROWLANDS** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2016-17** |
| **AWDUR** | **ALED GIBBARD**<br>**UWCH REOLWR GWEITHREDOL – ADNODDAU GOFAL** |

# Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol Gwynedd

# 2016-17

## Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad hon i amlygu rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor i weithredu fel rhieni corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal, i rannu gwybodaeth am weithrediad y panel dros y flwyddyn ddiwethaf ac i amlinellu bwriadon y panel ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am niferoedd a phatrymau ym maes plant mewn gofal.

## 1.0 Rôl a Chyfrifoldebau'r Cyngor

Mae Panel Rhiant Corfforaethol wedi ei sefydlu yng Ngwynedd fel ymhob sir arall yng Nghymru fel ffordd i gadw trosolwg o les a buddiannau plant mewn gofal. Mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru y bydd aelodau a staff pob awdurdod lleol yn ymagweddu'n gadarnhaol i rôl rhiantu corfforaethol. Yn 2009 rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth leol ddogfen o'r enw 'Petai'n blentyn i mi...' sy'n amlygu rôl a chyfrifoldeb aelodau fel rhieni corfforaethol.

Ynghlwm â rôl y rhiant corfforaethol mae'r disgwyliad y bydd y rhiant yn:

- Adnabod eu plant, eu anghenion, eu talentau a'u breuddwydion ac yn hyrwyddo eu buddiannau
- Dal uchelgais ar gyfer eu dyfodol ac yn disgwyl y gorau ganddynt ac ar eu cyfer
- Cymryd diddordeb yn eu llwyddiannau a dangos balchder yn eu llwyddiannau a'u dathlu gyda hwy
- Gwrando ar eu barn a sicrhau bod y farn yn dylanwadau ar ymarfer, datblygiadau gwasanaethau a pholisïau
- Sicrhau eu bod yn rhan o gynllunio eu bywydau
- Cydnabod, cefnogi a pharchu eu hunaniaeth ymhob ffordd.
- Hyrwyddo a chefnogi cyflawniad academaidd uchel
- Cefnogi eu gwydnwch iechyd a lles emosiynol

- Cefnogi eu siwrna o fod yn blant i oedolion a hyrwyddo eu potensial economaidd a'u paratoi i fod yn drigolion cyfrifol.
- Sicrhau fod y plant a'r bobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth y Cyngor a phartneriaid y Cyngor drwy gyfnodau heriol iawn yn eu bywydau.

Er mwyn cynnal y rôl yma mae'r Cyngor wedi sefydlu Panel Rhiant Corfforaethol sy'n cynnwys yr Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc, Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet perthnasol, rhiant maeth, Pencampwr Pobl Ifanc ac aelod wedi ei dewis gan Bwyllgorau Craffu. Mae'r Panel hefyd yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaeth Cymdeithasol, Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Pennaeth Addysg. Drwy'r Panel mae'r Cyngor, sef yr holl aelodau etholedig, yn dirprwyo eu cyfrifoldeb yn y maes i'r Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc. Mae gan y Panel yr hawl i ofyn i faterion sy'n achosi pryder iddynt gael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu gwasanaethau ar ei ran.
Yn ymarferol o ddydd i ddydd, mae'r gwaith o weithredu yn y maes i sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau a dyletswyddau statudol tuag at blant mewn gofal yn eistedd gyda'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd drwy y timau gwaith cymdeithasol. Mae'r Pennaeth Adran yn atebol i Gyfarwyddwraig Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Defnyddir y term 'rhiantu corfforaethol' i ddisgrifio'r cyfrifoldeb ar y cyd sydd gan y Cyngor a'i bartneriaid i sicrhau gofal effeithiol, diogel ac addas ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, yn ogystal a'r rhai sydd wedi gadael gofal. Oherwydd fod plant mewn gofal mewn risg uwch o gael eu heithrio yn gymdeithasol o gymharu a'u cyfoedion nad ydynt mewn gofal, mae'n hanfodol fod y Cyngor, fel rhiant corfforaethol, yn sicrhau bod y profiad o fod mewn gofal yn un cadarnhaol a chefnogol. Rôl y Panel Rhiant Corfforaethol yw i weithio i sicrhau fod yr hyn a nodir yn cael ei ddiwallu.

Ers ychydig dros flwyddyn mae'r cyfrifoldeb o arwain a rhedeg y panel rhiantu corfforaethol wedi ei drosglwyddo i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

**1.1 Hyfforddiant i Aelodau**

Mae hyfforddiant rhiantu corfforaethol yn cael ei ddarparu yn flynyddol i aelodau ac mae dyddiad eisoes wedi ei adnabod ar gyfer y Cyngor newydd yn ystod 2016/17. Ond, yn ystod 2015/16 yn hytrach na chynnal digwyddiad hyfforddi traddodiadol, fe benderfynwyd i gynnal gweithdy wedi ei hwyluso gan berson annibynnol ar Orffennaf 1af 2016 i aelodau'r panel, cynrychiolaeth o rieni maeth, swyddogion y panel, cynrychiolaeth iechyd a chynrychiolwyr o wahanol adrannau o fewn y Cyngor er mwyn paratoi ar gyfer strategaeth rhiantu corfforaethol ar ei newydd wedd gan fod y strategaeth oedd yn bodoli yn dod i ben yn 2017. Trafodwyd nifer o faterion yn ystod y gweithdy gan gynnwys rhinweddau rhiant da; beth yn union yw'r ddealltwriaeth sydd yn bodoli o'r rôl rhiant corfforaethol; sut gellid arfogi aelodau'r panel gyda'r wybodaeth berthnasol er mwyn gofyn y cwestiynau iawn; sut gellid gwella perthynas gyda rheini maeth a sut y dylai gweithrediad y panel ddatblygu dros y cyfnod nesaf.

**1.3 Strategaeth y Panel ar gyfer 2017-20**


Mae strategaeth ar gyfer 2013-17 ar gyfer y Panel wedi bodoli, ac mae angen paratoi a derbyn strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod nesaf, sef 2017- 20. Mae’r Panel wedi adnabod yr angen i fod yn llawer mwy gweithredol yn eu rôl o sicrhau’r cyfleoedd gorau i blant a phobl ifanc ac i dreiddio yn ddyfnach i rai o'r materion, er enghraifft addysg, iechyd, lles emosiynol, sefydlogrwydd ac yn y blaen. Mae’r strategaeth newydd yn edrych ar sefydlu gweithgorau bychan o blith aelodau’r panel i edrych ar faterion penodol o ran safon ac ansawdd gwasanaethau gan roi pwysau ar farn rhieni, gofalwyr a plant a phobl ifanc am y gefnogaeth a’r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae’r strategaeth newydd mewn ffurf drafft ar hyn o bryd a’r bwriad yw i’w chyflwyno yn ei ffurf terfynol i’r Panel ym mis Ebrill 2017er mwyn ei mabwysiadu fel y strategaeth weithredol ar gyfer y dyfodol. Y nôd o weithredu o dan drefn wahanol yw ein bod yn rhoi y plentyn yn ganolog i holl weithrediad y panel, ac o hynny daw gwell dealltwriaeth o rôl rhiant corfforaethol a gwell dealltwriaeth o brofiadau plant a phobl ifanc. Bydd modd adnabod unrhyw rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn unrhyw elfen o’u bywydau a gweithredu i symud y rhwystrau hynny i orau ein gallu gyda chefnogaeth ein partneriaid.

**2.0 Y sefyllfa gyfredol**


Cyflwynir y wybodaeth isod ar sail ffigyrau diwedd chwarter 3 eleni, sef diwedd Rhagfyr 2016 gan gynnwys ffigyrau cymharol o’r ddwy flynedd flaenorol.

| **Plant mewn gofal** | **2016/17** (at ddiwedd Ch3) | **2015/16** | **2014/15** |
|---|---|---|---|
| Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y chwarter | 220 | 207 | 194 |
| Nifer o blant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn | 53 | 68 | 64 |
| Nifer o blant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn | 44 | 52 | 56 |
| Nifer o blant wedi eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn | 5 | 9 | 5 |

**Tuedd y nifer o blant mewn gofal yng Ngwynedd**




Mae tuedd 5 mlynedd yn dangos cynnydd o 8.3% yn y nifer o blant mewn gofal dros y cyfnod. Wrth edrych ar ddadansoddiad o'r math o leoliadau dros y cyfnod hwn, gellir gweld bod y cynnydd o ganlyniad i fwy o blant mewn gofal sydd wedi lleoli gyda'u rhieni. Mae'r mathau eraill o leoliadau wedi unai aros yn gyson neu wedi gostwng.





Mae'r patrwm o gynnydd sylweddol felly o ganlyniad i'r nifer o blant sydd mewn lleoliadau gyda'u rhieni o dan Deddf Plant 1989. Mae meini prawf ar gyfer niwed arwyddocaol wedi ei brofi yn yr achosion hyn, ac yn sgil hynny mae'r plant yn dod yn destun Gorchmynion Gofal dros-dro, gyda'r disgwyliad i asesu ymhellach i ddod a'r achos llys i ganlyniad o fewn 26 wythnos. Ceir pwyslais gan y llysoedd i gadw plant o fewn eu teuluoedd genedigol tra bod yr asesiadau hyn yn cymryd lle.

**Ystod oed Plant mewn Gofal, Gwynedd 31/12/16**



**Lleoliadau Plant mewn Gofal**

O'r cyfanswm plant mewn gofal mae143 (65%) mewn lleoliadau maeth, 15 (6.8%) mewn lleoliadau preswyl a 54 (24.5%) wedi ei lleoli gyda'u rhieni. Roedd 4 o blant mewn lleoliadau mabwysiedig ar ddiwedd y chwarter gyda 4 person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.




**Lleoliadau Daearyddol**

Ar ddiwedd chwarter 3 roedd 60 (27%) o blant mewn gofal wedi eu lleoli tu allan i Wynedd. Roedd 44% o'r rhain ym Môn a Chonwy, gyda 70% o blant tu allan i Wynedd wedi'w lleoli yng Ngogledd Cymru. Mae 11 o blant wedi eu lleoli tu allan i Gymru, gyda 8 o'r rhain mewn lleoliadau preswyl. Mae amrywiaeth o resymau am y lleoliadau preswyl.

**Plant ifanc iawn yn dod i Ofal**

Mae'r data diweddaraf yn dangos parhad yn y nifer o blant o dan 5 oed sy'n dod i ofal. Hyd at ddiwedd chwarter 3 mae 62% o'r lleoliadau newydd plant mewn gofal ar gyfer plant o dan 5 oed. Dros 5 mlynedd mae plant o dan 5 oed yn cynrychioli 48% o'r holl leoliadau newydd.

**Cynllun ymestyn lleoliadau maethu - "Pan Fydda i'n Barod"**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn rhoi cyfrifoldeb newydd ar awdurdodau lleol tuag at bobl ifanc mewn gofal maeth sy'n dymuno parhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth tu hwnt i'w penblwydd yn 18 oed. Nod y cynllun yw medru cynnig sefydlogrwydd a pharhad i bobl ifanc fel nad ydynt yn symud allan o ofal cyn eu bod yn barod i wneud hynny. Bu Gwynedd yn rhan o rhaglen beilot i'r cynllun ers 2013 ac ers Ebrill 2016 mae'n gyfrifoldeb statudol ar pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn ystod 2016-17 mae 10 person ifanc wedi bod yn ran o'r cynllun ac ar ddiwedd chwarter 3 roedd 6 person ifanc yn parhau mewn trefniant Pan Fydda I'n Barod. Ers cychwyn y cynllun yn 2013 mae 58% o'r pobl ifanc a oedd yn gymwys ar gyfer y trefniant wedi dewis bod yn ran

ohono. Dengys ystadegau Gwynedd bod hyd y trefniadau hyn yn amrywio, gyda 10% o bobl ifanc yn aros mewn trefniant o'r fath am llai na 6 mis, 40% rhwng 6 a 12 mis a 50% 12 – 15 mis. Gall y trefniant fynd ymlaen hyd at ben-blwydd person ifanc yn 21 oed.

**Tim Trothwy Gofal**

Daeth y Tim trothwy yn weithredol yn Ionawr 2015. Ers Ebrill 2016 maent wedi gweithio gyda 96 plentyn (46 teulu). Roedd 41 plentyn (24 teulu) yn parhau i dderbyn gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 3. Daeth eu hymyrraeth i ben gyda 55 plentyn (32 Teulu) rhwng Ebrill a Rhagfyr 2016.
Pwrpas yr ymyrraeth mewn 54 o'r achosion oedd i gadw'r plentyn adref. O'r teuluoedd hyn mae 19 plentyn ( 7 teulu) wedi dod i ofal. Mewn 1 achos y pwrpas oedd i ddychwelyd adref o leoliad ac fe lwyddwyd i wneud hynny. Ar ddiwedd yr ymyrraeth roedd 36 plentyn (17 teulu) byw adref, gyda lleihad mewn anghenion y teulu.

**2.2 Yr Adran Addysg –**

Yn y flwyddyn addysgol 2015 – 2016 roedd 16 o ddisgyblion Gwynedd yn blant mewn gofal yn eu blwyddyn olaf o addysg statudol sef blwyddyn 11 ac yn ddisgyblion oedd wedi bod mewn gofal ers dros 12 mis ar 31/08/2015.

Statws cyfreithiol y **16** disgybl oedd fel a ganlyn:-

- **15** ar Gynllun Gofal Llawn ( Adran 31 Deddf Plant 1989)
- **1** wedi ei lleoli yn wirfoddol ( Adran 20 Deddf Plant 1989)

Roedd **8** disgybl yn derbyn addysg yng Ngwynedd, mewn ysgolion prif lif.

Roedd **3** disgybl yn byw yn all-sirol ac yn derbyn ei addysg yn all-sirol, mewn ysgol prif lif.

Roedd **2** disgybl yn byw yng Ngwynedd ac wedi derbyn ei addysg CA4 fel rhan o gynllun Addysg Gartref Adran Addysg Cyngor Gwynedd.

Roedd **3** disgybl yn byw yn all-sirol ac yn derbyn ei addysg yn all-sirol, mewn sefydliad arbennig.

Cafodd y disgyblion gyfle i sefyll amrywiaeth eang o arholiadau allanol addas megis TGAU, BTEC, OCR, OCR National, Sgiliau Hanfodol, Sgiliau Allweddol a Bagloriaeth Cymru.

Ceir crynodeb isod o'r cymwysterau a enillwyd gan yr **16** disgybl a oedd yn gymwys i sefyll arholiadau allanol eleni. (Disgyblion o fewn Gwynedd ac all-sirol)

Nodir hefyd amcan raddau'r unigolion, yn ôl yr ysgolion.

*Data Perfformiad*

| **Mesur** | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | **2016** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y plant sy'n gadael gofal 16+** | | | | | | |
| Gwynedd | **15** | **22** | **16** | **12** | **9** | **16** |
| **% 16+ enillodd o leiaf 1 cymhwyster** | | | | | | |
| Gwynedd | **40%** | **91%** | **94%** | **91%** | **67%** | **82%** |
| **% 16+ enillodd o leiaf 5 A*-G TGAU** | | | | | | |
| Gwynedd | **33%** | **45.5%** | **62.5%** | **50%** | **67%** | **82%** |
| **% 16+ enillodd o leiaf 5 A*-C TGAU (Gan gynnwys Iaith a Mathemateg)** | | | | | | |
| Gwynedd | **13%** | **18%** | **31%** | **25%** | **67%** | **62%** |

**Crynodeb:**
Canran disgyblion a enillodd 5 A*- C = 62% - Trothwy Lefel 2
Canran disgyblion a enillodd 5 A*- G = 82% - Trothwy Lefel 1

Canran disgyblion enillodd o leiaf 1 TGAU Gradd A*-C = 50%
Canran disgyblion enillodd o leiaf 1 TGAU Gradd A*-G = 82%

***Darpariaeth ôl 16***

Allan o'r **16** plentyn, mae

- **9** wedi mynd i golegau i ddilyn cyrsiau addas i'w gallu a'u gofynion.
- **2** wedi parhau yn yr Ysgol/Coleg 6ed Dosbarth i ddilyn cwrs Lefel UA/A ym mlwyddyn 12.
- **3** yn parhau mewn addysg arbennig.
- **2** yn derbyn gwasanaeth pellach gan Gyrfa Cymru/TRAC ôl 16.

**3.0 Gofal Iechyd Plant mewn Gofal**

Mae pryderon hanesyddol wedi bodoli am allu'r gwasanaeth iechyd i sicrhau fod asesiadau iechyd ar gyfer plant mewn gofal yn digwydd yn amserol. Mae dangosydd perfformiad cenedlaethol ynghlwm â'r weithgaredd yma, ac mae perfformiad yng Ngwynedd wedi bod yn fater o bryder am nifer o flynyddoedd. Mae'r Panel wedi bod yn rhagweithiol ac wedi galw swyddogion perthnasol o'r Bwrdd iechyd fwy nag unwaith i egluro'r problemau ac i geisio datrys y mater, ac wedi uchafu'r mater i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd. Mae sawl trafodaeth wedi cymryd lle rhwng swyddogion gweithredol y Bwrdd Iechyd a swyddogion y Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd, ac mae peth cynnydd wedi ei wneud sydd yn golygu fod gwelliant yn y niferoedd o blant sydd yn dod i ofal sydd yn derbyn asesiad iechyd yn amserol. Ar ddiwedd chwarter 3, 2016, roedd y perfformiad yn cyrraedd y targed, sef 65% ar amser. Roedd 82 o asesiadau iechyd cychwynnol ac adolygol oedd i fod i'w cynnal yn ystod y chwarter a chynhaliwyd 50 ar amser. Mae gwelliant wedi bod yn y broses o rannu gwybodaeth am blant rhwng y Gwasanaeth Plant a'r Bwrdd Iechyd. Er hyn, mae'r panel yn awyddus iawn i dderbyn

gwybodaeth am batrymau iechyd y plant sydd mewn gofal yng Ngwynedd, er enghraifft, oes cyflyrau penodol yn amlygu, oes problem gyda mynediad i rai disgyblaethau o fewn iechyd, oes materion y mae angen i'r panel edrych arnynt yn fanylach ac yn y blaen.  Gobeithir drwy weithredu'r strategaeth newydd y bydd modd mynd yn nes i gael atebion i'r materion penodol yma ac eraill ac y gwelid darlun llawn o anghenion iechyd gyda gwybodaeth ansoddol yn hytrach na data meintiol yn unig yn gyrru rhaglen y panel.

**Crynhoi**

Fel nodwyd yn yr adroddiad mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi adnabod yr angen i fod yn fwy strategol a gweithredol yn ei olwg i'r dyfodol. Mae peth gwaith wedi ei gyflawni ar hyn ond mae gwaith sylweddol dal angen ei gyflawni.

Drwy fabwysiadu datganiad cyhoeddus o addewid o gefnogaeth i blant mewn gofal a chydweithio effeithiol o fewn y Cyngor a chyda partneriaid allanol bydd modd i'r Panel ddefnyddio'r strategaeth i ddylanwadu'n effeithiol er lles plant mewn gofal.